



Coleg Gŵyr Abertawe
Gower College Swansea

POLISI A CHYNLLUN CYHOEDDI RHYDDID GWYBODAETH

Cyhoeddiad:	2011
Diwygiwyd:	Mawrth 2019
Dyddiad Adolygu:	Mawrth 2021
Cychwynnydd:	Sharon Barron, Clerc i'r Gorfforaeth
Lleoliad y Polisi:	BIZ-Sharepoint/Intranet/Policies & Procedures/Governance
Cymeradwywyd gan:	Pwyllgor Archwilio – 7 Mawrth 2019

CANLLAWIAU COLEG GŴYR ABERTAWE AR BOLISI A CHYNLLUN CYHOEDDI RHYDDID GWYBODAETH

Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000

Diben Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yw hyrwyddo didwylledd a chyfrifoldeb ar draws y sector cyhoeddus gan roi hawl cyffredinol i gael gafael ar wybodaeth sydd wedi ei 'gofnodi' a ddelir gan awdurdodau cyhoeddus, sy'n cynnwys pob coleg addysg bellach.

Mae'n ofynnol i Goleg Gŵyr Abertawe felly fabwysiadu a chynnal cynllun cyhoeddi, sef dogfen sy'n amlinellu'r wybodaeth y mae'r Coleg yn cyhoeddi, neu'r hyn a fwriedir y Coleg ei gyhoeddi yn y dyfodol. Nid rhestr o ddogfennau yw'r cynllun hwn ond yn hytrach casgliad o ganllawiau ar y gwahanol 'fathau' o wybodaeth y mae'r Coleg yn bwriadu gwneud yn hygyrch i'r cyhoedd.

Cynllun cyhoeddi enghreifftiol ar gyfer addysg bellach

Mae Coleg Gŵyr Abertawe wedi dewis y trydydd fersiwn o'r cyhoeddiad enghreifftiol, sef cyhoeddiad sydd wedi'i baratoi ar gyfer y sector addysg bellach. Mae'r fersiwn hwn wedi bod yn ddilys ers mis Awst 2013. Bwriedir hyn gynorthwyo'r cyhoedd i gael gafael ar wybodaeth ar draws y sector. Fodd bynnag, bydd rhywfaint o wybodaeth benodol yn cael ei heithrio rhag cael ei ddatgelu gan gynnwys diogelwch cenedlaethol, gorfodi'r gyfraith, buddiannau masnachol a diogelu data.

Cael gafael ar wybodaeth a gwmpesir gan y cynllun cyhoeddi

Disgrifir isod y mathau o wybodaeth y bydd y Coleg yn eu gyhoeddi o dan y ddeddf hon. Lle bo'n briodol, bydd y Coleg yn darparu gwybodaeth ar ei wefan. Lle gwelir yn anymarferol i roi gwybodaeth ar y wefan, byddwn yn nodi sut y gellir cael gwybodaeth drwy ddulliau eraill ac yn darparu'r wybodaeth drwy'r dulliau hynny.

Y mathau gwahanol o wybodaeth:

Pwy ydym ni a beth yr ydym yn ei wneud	Gwybodaeth sefydliadol, strwythur a chysylltiadau
Yr hyn a wariwn a sut yr ydym yn ei wario	Gwybodaeth ariannol sy'n ymwneud ag incwm a gwariant amcanol (a gwirioneddol), caffael, cytundebau ac archwiliadau cyllidol
Ein blaenoriaethau a'r ffordd yr ydym yn gweithredu	Strwythurau a chynlluniau, dangosyddion perfformiad, arolygiadau ac adolygiadau
Sut yr ydym yn gwneud penderfyniadau	Y brpses o wneud penderfyniadau a chofnod o'r penderfyniadau hynny
Ein polisiâu a'n gweithdrefnau	Protocolau, polisiâu a gweithdrefnau ysgrifenedig cyfredol er mwyn darparu'n gwasanaethau a'n cyfrifoldebau
Rhestrau a chofrestrau	Unrhyw wybodaeth sy'n ofynnol i ni (yn gyfreithiol) gadw ar gofrestrau a chofrestrau asedau cyhoeddus

Y gwasanaethau a gynigiwn	Gwybodaeth am y gwasanaethau a gynigiwn, gan gynnwys taflenni, canllawiau a chylchlythyrau
---------------------------	--

Gwneud cais o dan y cynllun cyhoeddi

I wneud cais trwy'r cynllun cyhoeddi, cysylltwch â:

Clerc i'r Gorfforaeth
Coleg Gŵyr Abertawe
Heol Tycoch
Sgeti
Abertawe
SA2 9EB

foi@gowercollegeswansea.ac.uk

Rhif ffôn (01792) 284222

Hysbysiad Preifatrwydd

Y Coleg sy'n rheoli materion sy'n ymwneud â chasglu data personol sydd ei angen er mwyn proresi ceisiadau a wneir o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Atodir hysbysiad preifatrwydd i'r polisi hwn.

Ffioedd a Thaliadau

Yn ôl adran 12 o'r Deddf Rhyddid Gwybodaeth, gall awdurdod cyhoeddus wrthod cais os yw'n amcangyfrif y byddai'r gost o gydymffurfio â'r cais yn fwy na'r uchafswm cyllidol caniataol. Uchafswm caniataol y Coleg yw £450.

Wrth amcangyfrif y costau y disgwylir eu hysgwyddo, gall y Coleg godi cyfradd unfurf o £25 yr awr o amser staff ar gyfer y gweithgareddau canlynol:

- Darganfod os yw'r wybodaeth yn cael ei gadw
- Lleoli'r wybodaeth/ddogfen a all gynnwys y wybodaeth
- Cael gafael ar y wybodaeth/ddogfen; a
- Echdynnu gwybodaeth o'r dogfen/dogfennau.

Mawrth 2019

Hysbysiad Preifatrwydd

Cyflwyniad

Mae'r Hysbysiad Preifatrwydd hwn yn egluro pa ddata personol y casglwn wrth i chi wneud cais am wybodaeth o dan Ddeddf Rhydid Gwybodaeth 2000 a'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol. Esbonnir hefyd y rheswm dros gasglu'r wybodaeth yn y lle cyntaf a'r bwriad i'w ddefnyddio.

Bydd y Coleg yn casglu'ch gwybodaeth yn uniongyrchol pan fyddwch yn gwneud cais.

Eich hawliau a'ch dewisiadau

O dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR), mae gennych chi'r hawl i:

- gael gafael ar unrhyw wybodaeth a ddelir Coleg Gŵyr Abertawe amdanoch
- gofyn i Goleg Gŵyr Abertawe gywiro unrhyw wybodaeth anghywir
- gwrthwynebu prosesu'r wybodaeth ar sail sy'n ymwneud â'ch sefyllfa benodol chi (mewn rhai amgylchiadau)
- cyfyngu ar yr hawl i brosesi (mewn rhai amgylchiadau)
- dileu eich gwybodaeth (mewn rhai amgylchiadau)
- cyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO), sef y rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data

Pa mor hir bydd Coleg Gŵyr Abertawe yn cadw eich gwybodaeth?

Bydd Coleg Gŵyr Abertawe yn cadw'r data personol a gesglir am gyfnod o dair blynedd ar ôl ymateb i gais sydd yn gysylltiedig â chi.

Cysylltiadau

I wybod rhagor am y wybodaeth mae Coleg Gŵyr Abertawe yn ei yn ei ddal, a defnydd y Coleg o'r wybodaeth yma, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan GDPR, cysylltwch â: Swyddog Diogelu Data, Coleg Gŵyr Abertawe, Heol Tycoch, Abertawe, SA2 9EB dpo@gcs.ac.uk

Er mwyn cysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, gweler y manylion isod:

Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Cheshire, SK9 5AF
029 2067 8400 (Llinell Gymorth Cymru) neu 0303 123 1113 (Llinell Gymorth y DU)
<https://ico.org.uk/>

Hysbysu newidiadau

Byddwn yn rhoi gwybod i chi os byddwn yn bwriadu defnyddio'ch data mewn ffordd wahanol i'r ffordd a nodwyd yn ystod y cyfnod a gesglir eich data. Bydd holl brosesu Coleg Gŵyr Abertawe yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth diogelu data sy'n bodoli. Bydd diweddariadau ynghylch newidiadau i'r hysbysiad preifatrwydd i'w gweld ar ein gwefan www.gcs.ac.uk

Pa wybodaeth bersonol amdanoch chi sy'n cael ei gasglu a'i ddefnyddio gan Goleg Gŵyr Abertawe?

Data Personol

Pan fyddwch yn gwneud cais, bydd y Coleg yn gofyn am:

- fanylion i brofi pwy ydych chi
- manylion cyswllt

Sut bydd Coleg Gŵyr Abertawe yn bwriadu defnyddio'ch data?

Byddwn yn defnyddio'ch data personol er mwyn cydymffurfio â'n rhwymedigaethau cyfreithiol. Mae'r proesi yn angenrheidiol er mwyn mesur perfformiad tasg, er budd y cyhoedd.

Bydd y wybodaeth a ddarperir yn cael ei ddefnyddio ar gyfer y rhesymau isod:

- Os oes angen gwybodaeth bellach arnom ynglŷn â'ch cais, byddwn yn cysylltu gyda chi. Byddwn hefyd yn cysylltu â chi er mwyn eich diweddarau ynghylch eich cais ac i ymateb yn llawn i'ch cais ar faterion cysylltiadol megis gwneud cŵyn sy'n gysylltiedig â'r modd yr ymdriniwyd â'ch cais neu'r penderfyniad a waned.
- Mae adran 8 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yn nodi dylai cais gynnwys enw a chyfeiriad gohebiaeth yr unigolyn sy'n gwneud y cais.

Bydd ceisiadau FOI/EIR a dderbynir gan y Coleg yn cael eu cofnodi a'u storio'n electronig ac ar ffurf bapur wrth iddynt gael eu proesi.

Gyda phwy rydym yn rhannu'ch data?

Ni fydd y data personol a gasglwn mewn perthynas â'ch cais yn cael ei rannu o fewn y Coleg. Fodd bynnag, gellir rhannu'r wybodaeth â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO), fel rholeiddiwr y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol; i lys, tribiwnlys, parti neu ddarpar barti lle mae datgeli wybodaeth yn angenrheidiol er mwyn gweithredu, sefydlu neu amddiffyn hawliau cyfreithlon; mewn achosion lle bydd gofyn i ni wneud yn dilyn cyfarwyddid o'r llys/tribiwnlys neu lle bydd gofyn i ni weithredu yn ôl y gyfraith.

Trefniadau Diogelwch ar gyfer eich data a ddelir gan Goleg Gŵyr Abertawe

Mae gan y Coleg bolisiau Diogelwch Gwybodaeth gadarn er mwyn sicrhau bod eich gwybodaeth yn cael ei gadw'n ddiogel. Mae gan holl staff y Coleg gyfrifoldeb i sicrhau bod data yn cael ei drin yn ddiogel. Bydd y data a gesglir amdanoch gan Goleg Gŵyr Abertawe yn cael ei gadw mewn system ddiogel a reolir gan fynediad yn unig.

Awst 2018